

**DOGFEN BOLISI A THREFNAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY
YN YMWNEUD Â GWRYCHOEDD UCHEL**

1.0 CYFLWYNIAD

Mae Rhan 8 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 yn creu gweithdrefnau newydd fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr i ymdrin â chwynion am wrychoedd uchel. Daeth y rhan hon o'r Ddeddf yn weithredol ar 31 Rhagfyr 2004.

Mae swyddogaeth gyfreithiol y Cyngor dan y ddeddfwriaeth hon yn glir. Ei swyddogaeth yw gweithredu fel trydydd parti annibynnol. Ni ddisgwylir i'r Cynghorau drafod na bod yn ganolwr rhwng unigolion, ond byddant yn barnu a yw'r gwrych yn cael effaith niweidiol ar fwynhad rhesymol yr unigolyn sy'n cwyno o'u heiddo. Wrth wneud hynny, byddant yn ystyried pob barn a ffactor perthnasol - gan gynnwys amwynder perchennog y gwrych. Byddant yn asesu pob achos yn unigol.

Bydd y Cyngor hefyd yn cyflwyno achosion cyfreithiol yn erbyn perchnogion gwrychoedd uchel sy'n peidio torri eu gwrychoedd i uchder rhesymol yn unol â'r Ddeddf.

2.0 CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

Beth yw gwrych uchel?

Mae'n rhaid i wrych uchel fod wedi ei ffurfio yn gyfan gwbl neu i raddau helaeth gan linell o ddwy neu ragor o goed neu lwyni bytholwyrdd neu led-fytholwyrdd, ac yn tyfu i uchder o fwy na 2 fedr uwchlaw lefel y ddaear. Felly, mae'n rhaid gofyn y cwestiynau canlynol;

Cwestiynau i'w gofyn	YDI / YDYNT	NAC YDI / NAC YDYNT
1. A yw'r gwrych yn ymddwyn i ryw raddau fel rhwystr i oleuni neu fynediad, er efallai bod bylchau ynddo?		
2. A yw'n cynnwys dwy neu fwy o goed neu lwyni?		
3. A ydynt mewn llinell yn fras?		
4. A yw'r gwrych yn cynnwys llwyni bytholwyrdd neu rannol fytholwyrdd yn llwyr neu'n bennaf?		
5. A yw'r gwrych yn uwch na 2 fedr?		
6. A yw'r gwrych, oherwydd ei uchder, yn cael effaith negyddol ar fwynhad rhesymol o'r cartref neu'r ardd?		

Os mai'r atebion i'r holl gwestiynau hyn yw YDI neu YDYNT, yna mae'n debyg bod hwn yn wrych uchel ar gyfer dibenion y Ddeddf.

Nid yw'r term lled-fytholwyrdd wedi ei ddiffinio ar ei ben ei hun yn y Ddeddf, ond fel arfer mae'n golygu bod y gwrych yn cadw rhywfaint o ddail byw neu ddail gwyrdd gydol y flwyddyn. Er enghraifft, mewn rhai rhannau o'r wlad, daw prifet o dan y diffiniad hwn, ond y pellaf yr ewch i gyfeiriad y gogledd, y mwyaf tebygol yr ydych o weld eich llwyn prifet yn colli ei ddail dros y gaeaf ac felly, ni fydd yn dod o dan y disgrifiad hwn.

Mae llwyni ffawydd yn debygol o gael eu heithrio, oherwydd er eu bod yn cadw peth o'u dail y rhan fwyaf o'r flwyddyn, mae'r dail hynny yn frown ac yn farw.

Dan ba amgylchiadau y gellir gwneud cwyn?

Os yw perchennog/preswilydd eiddo domestig wedi'i effeithio gan wrych sydd wedi ei leoli ar dir sydd yn eiddo rhywun arall, neu y mae rhywun arall yn byw ynddo, oherwydd bod ei uchder yn rhwystro goleuni neu fynediad i'r fath raddau fel ei fod yn effeithio'n andwyol ar fwynhad rhesymol o'r eiddo, yna efallai y gellir gwneud cwyn.

Beth os yw gwreiddiau'r gwrych yn effeithio ar fy eiddo i?

Mater sifil yw hynny ac nid yw'r Ddeddf yn ymateb iddo.

Mae'r gwrych yn ffurfio ffin eiddo busnes, a ellir cymryd camau?

Gellir. Dylech gymryd yr un camau rhesymol ag y byddech yn achos perchnogion unigol gwrych cyn mynd at yr Awdurdod Lleol.

Pa mor uchel y dylai gwrych fod?

Nid oes uchder penodol wedi ei nodi yn y ddeddf, heblaw na ellir lleihau uchder gwrych yn is na 2 fedr. Nid yw hynny'n golygu mai 2 fedr yw'r uchder mwyaf y caiff gwrych dyfu iddo gan ei bod yn bosibl cael gwrych sydd yn 2.5 medr neu uwch a hwnnw heb fod yn effeithio'n andwyol ar eich mwynhad o'ch eiddo. Byddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol farnu ar hyn pe byddai cwyn yn cael ei chofrestru.

Oes rhaid talu ffi?

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu codi ffi, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi sefydlu ffi o £320.

Ond, gellir hepgor y ffi mewn rhai amgylchiadau. Os yw'r unigolyn sy'n cwyno yn cael budd-daliadau gwladol fel Cefnogaeth Incwm, budd-dal treth y cyngor neu fudd-dal arall tebyg sy'n dangos y byddant yn cael anhawster wrth fforddio'r ffi, bydd y Cyngor yn hepgor y ffi fel arfer.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu hepgor y ffi am gynnal asesiad dechreuol fel sydd wedi'i ddisgrifio yn y drefn a ganlyn, ac felly mae am ddim.

3.0 Y DREFN

3.1 Cyn cysylltu â'r Cyngor, dylai'r unigolyn/unigolion sydd wedi'u heffeithio gan y gwrych geisio datrys y mater gyda pherchennog y gwrych. Dylai'r unigolyn/unigolion dan sylw gysylltu â'u Cynghorydd lleol neu Swyddfeydd y Cyngor dim ond os nad yw hyn wedi datrys y broblem. Gellir gwneud hyn dros y ffôn, e-bost, yn ysgrifenedig, yn bersonol, neu dros y rhyngrwyd.

3.2 Os nad yw trafodaethau gyda pherchennog y gwrych wedi datrys y broblem, a bod cwyn yn cael ei derbyn, cynhelir asesiad dechreuol o'r broblem. Efallai yr hoffech drafod y broblem gyda'ch Cynghorydd lleol a all eich arwain a'ch cynorthwyo. Os yw'n bosibl, bydd hyn o fewn mis i ddyddiad cyflwyno'r gŵyn, a bydd yn cael ei gynnal yn yr eiddo sydd wedi'i effeithio gan y gwrych.

3.3 Os teimlir bod achos i'w dilyn, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob parti gymryd yr holl gamau rhesymol i ddatrys y mater cyn cysylltu â'r awdurdod lleol a cyn cyflwyno cwyn ffurfiol. Gofynnir y cwestiwn hwn yn ystod yr asesiad dechreuol.

3.4 Yn dilyn yr Asesiad Dechreuol, os teimlir bod y gwrych yn achosi problemau, anfonir llythyr at berchennog y gwrych o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd y llythyr yn amlinellu'r ddeddfwriaeth ac yn eu hannog i weithio gyda'u cymydog i ddatrys y mater.

3.5 Os bydd angen ymglymiad pellach gan swyddogion y Cyngor, mae'n rhaid gwneud cais ffurfiol i gofrestru'r gŵyn. Yn y cam hwn, codir ffi (£320 ar hyn o bryd), ac ni fydd yn cael ei ad-dalu gan y Cyngor.

3.6 Yna, cynhelir arolwg ac archwiliad llawn ar y safle yn unol â'r arweiniad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru pan fydd cais wedi'i dderbyn ac nad yw'n ymddangos y bydd y cymdogion yn datrys y mater heb ymyrraeth allanol a bod yr awdurdod lleol wedi cael cais i symud ymlaen gyda'r achos.

3.7 Os bydd achos gorfodi yn y llys, bydd y Cyngor yn cymryd camau i adennill unrhyw gostau pellach gan berchnogion y gwrych. Gall y Cyngor hefyd ystyried cyflwyno cais ar ran yr unigolion sydd wedi cyflwyno'r gŵyn i adennill unrhyw ffioedd sydd wedi'u talu i'r Cyngor.

3.8 Ar ddiwedd yr achos, os oes angen, bydd y Cyngor yn cymryd camau i dorri'r gwrych ac yn gofyn i berchnogion y gwrych ad-dalu'r holl gostau trwy gyflwyno achos cyfreithiol pellach.